

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2011**

---

Amser:  
**09:00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Sarah Beasley**  
Clerc y Pwyllgor  
02920898032  
[CYPCommittee@wales.gov.uk](mailto:CYPCommittee@wales.gov.uk)

**Sarah Sargent**  
Dirprwy Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8408  
[CYPCommittee@wales.gov.uk](mailto:CYPCommittee@wales.gov.uk)

---

### Agenda

---

#### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

#### 2. Craffu ar waith y Gweinidog Addysg a Sgiliau (09:00 - 10:00)

(Tudalennau 1 - 9)

- Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Jeff Cuthbert, Dirprwy Weinidog Sgiliau
- Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol oes a Sgiliau
- Chris Tweedale, Cyfarwyddwr, Grŵp Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion

#### 3. Craffu ar waith Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau

**Cymdeithasol (10:00 - 11:00)** (Tudalennau 10 - 16)

- Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rob Pickford, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Martin Swain, Swyddog Arweiniol ar Weithio mewn Partneriaeth ym maes Plant a Theuluoedd

#### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod Eitem 5

#### 5. Ymchwiliadau posibl yn y dyfodol

# Eitem 2

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

CYP(4)-01-11 – Papur 1

### Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

#### 1. Cyflwyniad

1.1 Gwella'r system addysg yng Nghymru sydd wrth graidd blaenoriaethau'r Llywodraeth hon ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Llywodraeth hon wedi datgan yn glir ein bod yn dymuno datblygu rhaglen uchelgeisiol, greadigol a radical ar gyfer adnewyddu'r system addysg. Mae tair o'n blaenoriaethau allweddol yn canolbwyntio ar wella deilliannau i blant a theuluoedd. Y blaenoriaethau hynny yw gwario mwy ar wasanaethau rheng flaen yn yr ysgol; dyblu nifer y plant sy'n elwa ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg; a mynd i'r afael â diweithdra ymhlith ein pobl ifanc. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael dechrau gwych mewn bywyd. Roedd ein cynllun gweithredu deinamig i gyflawni hyn yn rhan o'n maniffesto, ac erbyn hyn mae'n diffinio'r hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth.

1.2 Mae addysg yn sylfaenol i gyflawniad personol ac i'n llewyrch fel cenedl. Fodd bynnag, mae'n gwneud mwy na siapio cyfleoedd bywyd unigolion neu sicrhau llwyddiant economaidd. Mae addysg hefyd yn sylfaenol i feithrin cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg.

1.3 Yn ôl amryw o ffynonellau, er ein bod wedi gweld gwelliannau sylweddol ers datganoli, mae'n glir nad yw safonau addysg yng Nghymru mor dda ag y gallent fod, ac nad ydynt ychwaith mor dda ag y dylent fod. Mae'n amlwg hefyd nad yw'r system yn llwyddo i gyflawni deilliannau da yn gyson ar gyfer ein pobl ifanc. Yn ogystal â thystiolaeth asesiadau PISA, mae deilliannau ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn ogystal ag arholiadau allanol yn cefnogi'r ddadl fod rhoi'r gorau i gyhoeddi data ar berfformiad (tablau cynghrair) yng Nghymru wedi cyfrannu at y bwlch, sy'n cynyddu, rhwng cyrhaeddiad yng Nghymru a Lloegr.

1.4 Yn fy marn i, mae gennym ni yng Nghymru dri phrif fater i fynd i'r afael â hwy: llythrennedd; rhifedd; a lleihau'r effaith y mae amddifadedd yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn golygu canolbwyntio'n benodol ar ddysgu, atebolrwydd, cydweithio a chynyddu i'r eithaf botensial y gweithlu addysgu.

1.5 O ganlyniad, yn rhinwedd fy nghyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc, rwy'n croesawu'r cyfle i egluro wrth y Pwyllgor fy ngeuedigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer y 18 mis nesaf.

## **2. Atebolrwydd**

2.1 Ym mis Chwefror, cyhoeddais raglen gynhwysfawr ar gyfer gwella ysgolion. Mae hwn yn gynllun gweithredu 20 pwynt, i godi safon yr addysg sy'n cael ei darparu yng Nghymru.

2.2 Comisiynais hefyd adroddiad ar Strwythur y Gwasanaeth Addysg yng Nghymru, a gafodd ei gynnal gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol, o dan gadeiryddiaeth Viv Thomas. Roedd yr adolygiad hwn yn dadansoddi perfformiad darparwyr ar bob lefel: ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol. Daeth y grŵp o hyd i enghreifftiau o gyflawniad eithriadol, ond gwelwyd hefyd fod anghysondeb yn y safon, a hynny i'r fath raddau a oedd siomedig.

2.3 Un o'r materion a nodwyd yn glir yng Nghymru yw'r anawsterau o ran capasiti sy'n deillio o'r ffaith bod ein hawdurdodau yn fach iawn, ac mae'n gwbl amlwg bod angen inni gydweithio lawer mwy. Rhaid i'r system fod yn dryloyw hefyd, er mwyn sicrhau ein bod yn galw perfformiad ein dysgwyr i gyfrif ar bob lefel, ac yn herio'r perfformiad hwnnw os nad yw pethau'n dda. Byddwn yn defnyddio ymyriadau a phwerau, a hynny mewn modd priodol a chyson, lle nad oes cynnydd yn cael ei wneud. Mae Estyn yn adrodd bod lefel ac effeithiolrwydd yr her y mae awdurdodau lleol yn ei gosod i'w hysgolion yn amrywio, a bod awdurdodau lleol ar y cyfan yn ymateb yn effeithiol i fethiannau. Serch hynny, mae llawer ohonynt yn perfformio'n llai effeithiol o ran atal canlyniadau gwael i arolygiadau ysgol, ac o ran gosod her i'w hysgolion i weithio i gyflawni rhagoriaeth.

## **3. Codi Safonau Ysgolion**

3.1 I ganolbwyntio ar safonau, rwyf wedi sefydlu Uned Safonau Ysgolion, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y system yn gwella yn gyffredinol. Bydd yr Uned yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector addysg ar bob lefel i nodi cryfderau a gwendidau, rhannu arfer da a chefnogi gwelliannau.

3.2 Mae'r Uned yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth hanfodol a gwybodaeth am systemau er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o berfformiad hanesyddol, tueddiadau, patrymau a meincnodau, ac i ddeall beth yw rhagoriaeth.

3.3 Bydd yr Uned yn gweithio gyda Chonsortia ac yn defnyddio archwiliadau i adolygu perfformiad a nodi camau â blaenoriaeth. Bydd yn trafod yn rheolaidd â'r consortia/awdurdodau lleol i gytuno ar y cynnydd a'r camau a fydd eu hangen i gefnogi gwelliannau. Mae archwiliadau peilot yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, a'r bwriad yw cynnal archwiliadau mwy ffurfiol yn yr hydref.

3.4 Mae'r Uned Safonau hefyd yn datblygu system bandio, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar berfformiad a chynnydd addysgol.

3.5 Mae bandio yn rhannu ein hysgolion yn grwpiau ar sail ffactorau amrywiol, er mwyn nodi'r hyn a ddylai gael blaenoriaeth wrth gynnig cefnogaeth wahaniaethol, yn ogystal â ffactorau y gall y sector gyfan ddysgu ohonynt. Ymhlith dangosyddion eraill, bydd presenoldeb yn cael ei ddefnyddio i fesur perfformiad ysgolion, er mwyn sicrhau bod pwyslais ar y maes hwn. Yn achos triwantiad, byddwn yn dilyn polisi dim goddefgarwch. Yr agwedd bwysicaf ar y broses hon fydd y gefnogaeth a'r her a fydd yn ei dilyn, yn ogystal â'r arferion da a fydd yn cael eu rhannu. Bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyfeirio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol i'r meysydd sydd eu hangen fwyaf.

3.6 Byddwn yn datblygu fframwaith a chanllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion i gefnogi'r broses bandio. Bydd y rhain yn allweddol ar gyfer sicrhau gwelliannau hirdymor, sydd hefyd yn gynaliadwy.

3.7 Bydd disgwyl i ysgolion wneud cynnydd ar y targedau ar gyfer pob disgybl, er mwyn sicrhau bod pob un yn gwneud gwerth un flwyddyn academaidd o gynnydd yn ystod un flwyddyn galendr. Rydym yn disgwyl i bob ysgol osod targedau ar gyfer gwelliant parhaus erbyn diwedd y flwyddyn.

#### **4 Mae Strwythurau Addysg yn effeithiol ac effeithlon**

- Byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) i atgyfnerthu ymyriadau ysgol yr Awdurdodau Lleol/Consortia a sicrhau bod y Canllawiau ar ysgolion sy'n achosi pryder yn cael eu diwygio erbyn diwedd y flwyddyn.
- Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn yn dechrau cael effaith. Bydd y dystiolaeth hon yn darparu gwybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio ar y cyd â dadansoddiad data'r Uned Safonau Ysgolion.
- Drwy gyfrwng telerau ac amodau'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, byddwn yn sicrhau bod pob ysgol yn croesawu'r egwyddor o gydweithio gan ddefnyddio dulliau megis Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Bydd hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol amlinellu sut y maen nhw'n gwneud hyn erbyn diwedd 2012.
- Rydym hefyd yn disgwyl i ALLau gymryd rhan mewn trefniadau consortia neu wynebu cosbau ariannol.

- Byddwn yn gwneud arbedion ariannol drwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chyfeirio cyllid at y rheng flaen erbyn diwedd 2012.

## 5. Ysgolion a Chyrff Llywodraethu

- Bydd pob ysgol yn cynhyrchu proffil cyhoeddus blynyddol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad, ar yr un fformat erbyn diwedd mis Medi 2012. Byddwn hefyd yn disgwyl i gynlluniau datblygu ysgolion nodi sut y maen nhw'n bodloni safonau cymeradwy ar sail y targedau adeiladol y byddwn yn eu gosod ar gyfer addysg yng Nghymru. Rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu. Bydd y cynlluniau cyntaf yn cael eu cyhoeddi mewn perthynas â chynllunio ar gyfer blwyddyn academiaidd 2012-2013.
- Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y system ysgol, ac maen nhw'n adnodd allweddol i bob ysgol. I gydnabod hyn, gan ddechrau ym mis Medi 2011, bydd pob llywodraethwr newydd yn cael hyfforddiant cychwynnol a bydd Cadeirydd pob corff llywodraethu yn cael hyfforddiant ar gadeirio a defnyddio data. Bydd awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth clerac ac yn trefnu hyfforddiant i glercod.
- Bydd hi'n ofynnol i ysgolion ddangos hefyd fod eu Cyrff Llywodraethu wedi ystyried data teuluoedd o ysgolion a'r holl ddata perthnasol arall ar berfformiad, a'u bod wedi sefydlu cynlluniau ar gyfer gwella yn ystod blynyddoedd academiaidd 11-12. Bydd angen gwneud hyn i sicrhau hefyd fod ysgol yn cael arolwg Estyn llwyddiannus, ac rwyf eisoes wedi ysgrifennu i Gyrff Llywodraethu ynglŷn â'r angen i gyhoeddi adroddiad blynyddol.
- Rydym eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Chyrff Llywodraethu, ac rydym yn disgwyl gweld mwy o ffederasiynau o ysgolion a fydd yn cael eu rhedeg gan un corff llywodraethu. Gwnaed cynnydd eisoes ar y pum ffederasiwn peilot sydd wedi'u sefydlu.
- Byddwn am ddeddfu mewn perthynas â phenderfyniadau cau ysgolion, ac ar ba lefel y dylid gwneud penderfyniadau o'r fath, gyda'r nod o sicrhau bod modd gwneud mwy o benderfyniadau yn lleol, a'u bod yn cael eu gwneud yn fwy sydyn na'r trefniadau presennol.
- Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cynyddu'r gwariant ar addysg o 1% yn fwy na'r dyraniad grant bloc. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad CLILC i godi lefel y cyllid sy'n cael ei neilltuo i ysgolion i 85%.

## 6. Llythrennedd a Rhifedd

6.1 Mae llythrennedd a rhifedd yn sgiliau sylfaenol. Nid yw'r sgiliau hyn yn cyrraedd y lefel angenrheidiol ar hyn o bryd, felly mae llawer o gamau yn eu lle i sicrhau bod perfformiad dysgwyr yn gwella yn y meysydd hyn:

- Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ganmol yn gyffredinol ar draws y sector, ac mae rhieni yn gefnogol iddo. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau nad yw sgiliau llythrennedd yn llithro yn sgil y Cyfnod Sylfaen. I'r perwyl hwn, bydd asesiad sylfaenol o anghenion datblygu pob plentyn yn cael ei gynnal wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i bennu eu hanghenion dysgu yn y dyfodol.
- Byddwn yn sefydlu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd. Fframwaith ar gyfer dysgwyr 5 - 14 oed fydd hwn. Bydd profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn cyd-fynd â'r fframweithiau hyn, a byddant yn dangos sut y mae disgyblion yn perfformio yn erbyn meini prawf cenedlaethol ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddant yn caniatáu i ysgolion a rhieni/gofalwyr weld sut y gallant gefnogi eu plant hyd eithaf eu gallu.
- O ganlyniad, bydd mwy o gysondeb rhwng asesiadau athrawon. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau parhaus yn cael eu cynnal i fynd i'r afael ag arferion addysgu sy'n amrywio. Yng nghydestun Llythrennedd a Rhifedd, bydd y rhain yn weithredol erbyn hydref 2012.
- Rydym wedi creu Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol, a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar, sy'n canolbwyntio ar blant 7-11 oed. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys rhaglenni darllen dal i fyny, yn ogystal â rhaglenni ar gyfer ymestyn y disgyblion mwyaf galluog. At hynny, bydd Prawf Darllen Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno erbyn blwyddyn academaidd 2011-2012; yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Byddwn yn datblygu hefyd Gynllun Rhifedd Cenedlaethol a fydd yn cyflwyno Prawf Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer blwyddyn academaidd 2012-2013.
- Yn dilyn deilliannau asesiadau PISA 2009, ac yn sgil nodi bod angen cymhwyso sgiliau mewn modd mwy ymarferol, rydym yn bwriadu cynnwys, fel rhan o'r asesiadau ysgol i ddisgyblion 15 oed, asesiadau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer dysgu. O ganlyniad, rydym wedi annog pob ysgol i ganolbwyntio ar ddysgu llythrennedd, rhifedd a datrys problemau mewn modd sy'n seiliedig ar sgiliau.

## 7. Y Gweithlu Addysgu

7.1 Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia yn cefnogi athrawon a sicrhau eu bod yn cael mwy o barch.

7.2 Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr, rhaid inni gynhyrchu athrawon â chymwysterau gwell, sy'n gallu sicrhau bod y dysgu a'r addysgu yn fwy effeithiol yn y dosbarth. Mae'n hanfodol rhannu arferion gorau, a bydd nod arweinwyr y systemau, a chymryd rhan weithredol yn y Cymunedau Dysgu Proffesiynol, yn bwysig i wneud cynnydd ar y gwaith o wella addysg, ac i gynnal y cynnydd hwnnw.

7.3 Mae penaethiaid yn chwarae rhan sylfaenol i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud, a byddwn yn darparu'r gefnogaeth a'r arfau sydd eu hangen arnynt i godi safonau yn eu hysgolion. Rydym yn ymgynghori ar y newidiadau i'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer Penaethiaid. Yn achos pob athro, bydd cyswllt rhwng rheoli perfformiad a Safonau Proffesiynol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus, er mwyn sicrhau bod yr elfennau hyn yn gweithio'n fwy effeithiol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran gwella'r dysgu a'r addysgu.

7.4 Rhaid i bob addysgwr feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol, beth bynnag yw ei gefndir neu ei faes arbenigedd. Bydd un diwrnod HMS y flwyddyn yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd i bob athro.

7.5 Mae nifer o fesurau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd hefyd i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer y cyfnod Ymsefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer pob athro newydd gymhwyso yng Nghymru. Byddant yn cynnwys:

- diwygio'r Safonau Athrawon Wrth Eu Gwaith er mwyn sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'r safonau (o fis Medi 2011);
- cyfeirio'r cyllid ar gyfer y cyfnod Ymsefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (EPD) at y blaenoriaethau craidd, sef llythrennedd; rhifedd; lleihau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad; rheoli ymddygiad; anghenion dysgu ychwanegol (ALN); ac ymarfer myfyriol (o fis Medi 2011)
- adolygu'r rheoliadau Ymsefydlu, a'r trefniadau ar gyfer asesu Athrawon Newydd Gymhwyso, i sicrhau bod y rhaglen Ymsefydlu a EPD yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd (o fis Medi 2012).

Rydym hefyd yn:

- adolygu rôl a swyddogaethau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i sicrhau bod anghenion pob addysgwr yng Nghymru yn cael eu diwallu yn y ffordd orau;
- gweithio ar ddatblygu cronfa o adnoddau ar strategaethau addysgu o safon uchel fel cymorth i bob addysgwr. Bydd hon yn

cael ei datblygu yn ystod y flwyddyn academiaidd sydd i ddod, a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru i athrawon yng Nghymru ei defnyddio wrth ddatblygu eu harferion;

- canolbwyntio'n benodol ar arferion dysgu sy'n hynod ddibynadwy, gyda phwyslais newydd ar gynnwys y dysgu yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Drwy gyfrwng adnoddau ac enghreifftiau o safon, bydd addysgwyr yn cael eu hannog i wella eu sgiliau addysgu, yn arbennig ym meysydd llythrennedd a rhifedd;
- datblygu Rhaglen Feistr, wedi'i seilio ar waith ymarferol ac ymchwil, i athrawon ei dilyn yn gynnar yn eu gyrfaedd i wella ansawdd yr arferion addysgu, a fydd yn dechrau ym mis Medi 2012.

7.6 Mae'n bwysig hefyd ein bod yn ceisio newid diwylliant y Datblygiad Proffesiynol Parhaus drwy ddatblygu system a fydd yn sicrhau bod athrawon yn gweithio gyda'i gilydd, fel rhan o'u harfer dyddiol, ac yn gweithio i gefnogi'r broses o ddatblygu dulliau addysgu rhagorol drwy gyfrwng Cymunedau Dysgu Proffesiynol.

## **8. Isadeiledd**

8.1 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo, ar y cyd ag awdurdodau lleol ac eraill, i wella'r ystad addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae mwy na £477 miliwn, o arian pontio'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac o gronfeydd cyfalaf eraill, wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfnod o 2009-10 i 2014-15. Bydd yr arian hwn yn cefnogi 66 o brosiectau; o ysgolion cynradd i brifysgolion.

8.2 Cafodd rhaglen yr arian pontio ei sefydlu fel rhagflaenydd i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, fel rhan o gronfa gyfalaf unedig ar gyfer cyllid cyfalaf addysg yn gyffredinol.

8.3 Yn sgil y toriadau i'r ddarpariaeth cyfalaf, o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllideb lai o faint, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei hamserlen ar gyfer cyfrannu at brosiectau. Mae swyddogion yn dal i drafod ag awdurdodau lleol i benderfynu ar amserlen ar gyfer dechrau ar brosiectau a'u cyllido.

8.4 Yn y Gymru Ddigidol, rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi dysgu drwy TGCh, gan sicrhau bod gan ein hathrawon a'n pobl ifanc y sgiliau i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel yn y byd digidol modern.



## **9. Agenda Diwygio'r Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN)**

9.1 Ein nod yw diwygio'r system bresennol o roi datganiadau i blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Arbennig (AAA). Mae fy Adran i wedi comisiynu prosiectau peilot, a sefydlwyd mewn partneriaeth ag wyth awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ystyried opsiynau amrywiol eraill ar wahân i'r fframwaith statudol presennol. Disgwylir i'r prosiectau peilot hyn ddod i ben eleni, a bydd adroddiad gwerthuso a dadansoddiad cost a budd yn cael eu cynnal ddechrau 2012.

9.2 Bydd angen deddfu er mwyn gweithredu'r newidiadau, a'r nod yw y byddwn hefyd yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros gyflawni'r dyletswyddau presennol yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu neu anabledau dros 16 mlwydd oed sydd wedi'u lleoli mewn lleoliad AB arbennig oddi wrth Weinidogion Cymru i'r awdurdodau lleol.

9.3 Rydym hefyd yn ystyried trosglwyddo cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth AAA ôl-16 mewn ysgolion arbennig ac mewn lleoliadau y tu allan i'r sir, a rhoi cymorth ychwanegol i ddarpariaeth AAA ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd, o'r grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG).

9.4 Canlyniad y newidiadau hyn yn gyffredinol fydd sefydlu patrwm cydlynol o wasanaethau, o dan arweiniad consortia o awdurdodau lleol, a fydd yn darparu gwasanaethau aml-asiantaeth ar sail anghenion y dysgwr mor agos â phosibl i gartref y dysgwr.

## **10 Adroddiad Etifeddiaeth**

10.1 Mae'r Pwyllgor a'i Adroddiad Etifeddiaeth yn argymhell y dylai'r Pedwerydd Cynulliad barhau i graffu ar y mater o doiledau ysgolion sy'n annigonol, ac nad ydynt mewn cyflwr da.

10.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad "Codi'r Clawr". Mae wedi ymrwymo hefyd i gymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, yn unol â'r fframwaith atebolrwydd cyfredol sy'n gosod cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Lleol dros ddarparu toiledau sy'n ddigonol i ddisgyblion.

10.3 I'r perwyl hwn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol a chynrychiolwyr Comisiynydd Plant Cymru i gynhyrchu canllawiau arfer gorau ar gyfer awdurdodau cyfrifol i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u dyletswyddau i gadw toiledau yn lân ac mewn cyflwr da.

10.4 Rydym wedi ymgynghori ar y canllawiau hynny, ac mae'r gwaith o baratoi'r canllawiau terfynol yn mynd rhagddo, a'r bwriad yw eu cyhoeddi yn yr hydref. I gefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd "Gwylwch y Germau" a "Dysgwch Wers i Germau" i godi proffil glanweithdra mewn ysgolion a lleoliadau addysg a gofal plant eraill. Nod yr ymgyrchoedd hyn yw sicrhau bod plant, a'r rheini sy'n gyfrifol amdanynt, yn cael gwybod sut i ddefnyddio cyfleusterau toiled yn effeithiol, ac mewn modd glanwaith, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

10.5 Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar sail fformiwla i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredinol ynghyd â'u cyllid cyfalaf cyffredinol eu hunain. Gallent ddefnyddio'r cyllid hwn i fynd ati i adnewyddu a gwella toiledau, ac rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i gyllido'r gwaith hwn yn y dyfodol, a hynny fel rhan o'u cynllun buddsoddi cyfalaf ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw adeilad newydd y mae'n ei gyllido yn cydymffurfio ag arfer da a rheoliadau perthnasol o ran manylion yr adeilad, gan gynnwys mewn perthynas â thoiledau ysgol.

## 11. Casgliadau

11.1 Rwyf wedi nodi yn y Papur hwn y camau cyflenwi allweddol sy'n eu lle neu sy'n cael eu datblygu a fydd yn gwella safon addysg yng Nghymru. O ystyried maint y portffolio addysg, a'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae o ran ymrwymadau ehangach Llywodraeth Cymru, nid wyf wedi trafod yr holl waith sy'n mynd rhagddo ym mhob maes. Os yw'r Pwyllgor yn dymuno, byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth.

11.2 Rhaid inni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau ar unrhyw lefel o'r system addysg; mae hynny'n wir yn achos aelodau etholedig, gweinyddwyr a'r gweithlu addysgu. Y dysgwyr sydd bwysicaf, ac maen nhw'n haeddu'r gorau. Fodd bynnag, mae parodrwydd a chymhelliant pob un sydd ynghlwm wrth ddarparu addysg yng Nghymru i fwrw ati â'r newidiadau a sicrhau gwelliant wedi creu argraff arnaf i.

11.3 Drwy gydweithio ar draws y sector, a thrwy ganolbwyntio'n benodol ac yn barhaus ar safonau addysg yng Nghymru, rwy'n argyhoeddedig y byddwn yn gallu cyflawni deilliannau gwell i ddysgwyr yng Nghymru. Byddwn i'n croesawu cyfraniad y Pwyllgor hefyd wrth fwrw ati â'r gwaith hwn.

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

CYP(4)-01-11 – Papur 2

### Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

#### Blaenoriaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

##### Cyflwyniad

Fel y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, rwy'n hynod falch o gael arwain y gwaith o gyflawni ymrwymadau'n manffesto ar gyfer plant a theuluoedd. Rydym wedi cadarnhau ein hymrwymiad i gefnogi plant a theuluoedd a mynd i'r afael â thlodi plant. Ein hamcanion cyffredinol yw helpu teuluoedd i gael gwaith, gwella sgiliau a chau'r bylchau mewn canlyniadau i blant sy'n byw mewn tlodi.

Rwy'n arbennig o falch bod fy mhortffolio bellach yn cynnwys yr holl faterion sy'n berthnasol i blant. Mae'n rhoi cyfle i ddatblygu system gefnogi gynhwysfawr a ddi-dor ar gyfer plant agored i niwed a'r rhai sy'n ddifreintiedig oherwydd tlodi.

Fel y gwyddoch, mae gwella bywydau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn gyfrifoldeb i bob un ohonom. Mae gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn flaenoriaeth, a'r unig ffordd y gellir cyflawni hynny yw trwy bolisiau cydgysylltiedig, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar wella lles plant. Bydd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc rôl hanfodol yn y broses honno, ac rwy'n falch o gael y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn fuan i drafod fy mlaenoriaethau.

Bydd ein holl waith o gynorthwyo plant a phobl ifanc yn seiliedig ar ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ogystal â'r defnydd parhaus o'r saith nod craidd fel sail i'n gwaith o ddatblygu polisiau a rhaglenni i gynorthwyo plant a phobl ifanc.

##### Diben

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Dros y misoedd nesaf, byddaf yn nodi'n fanylach sut byddwn yn datblygu rhaglen gydlynol i gyflawni'n ôl y blaenoriaethau, a sut y bwriadwn eu rheoli ar draws y llywodraeth.

## **Tlodi Plant**

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd ein Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r Strategaeth yn disgrifio'n glir beth y gall Llywodraeth Cymru ei chyflawni o ran helpu i leihau tlodi plant – a gwella canlyniadau teuluoedd ar incwm isel.

Mae'n nodi tri amcan strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant sef: lleihau nifer y bobl sydd heb waith; cynyddu sgiliau pobl ifanc a rhieni a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau addysg, iechyd ac economaidd teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Rydym yn gweithio gydag adrannau ar draws Llywodraeth Cymru i nodi'r camau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r tri amcan gyda'r bwriad o gynhyrchu cynllun gweithredu gwrthdlodi sy'n amlinellu'r dull unigryw sydd gennym yng Nghymru.

## **Cynorthwyo Plant a Theuluoedd**

Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo plant a theuluoedd a diogelu hawliau plant. Rydym hefyd am gefnogi rhianta cadarnhaol a rhoi'r cymorth angenrheidiol i rieni. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn annerbyniol trwy hyrwyddo dulliau eraill cadarnhaol a'n cymorth trwy raglenni rhianta.

Er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn plant yn gwneud gwahaniaeth go iawn, byddwn yn parhau i wella tryloywder cyllidebau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais a'u bod yn cyfrannu at yr hyn sy'n effeithio arnynt. Rwyf am weld plant yn cyfrannu at y drafodaeth bwysig ynglŷn â gwasanaethau sy'n effeithio arnynt a byddwn yn parhau i wella'r cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gyfrannu at benderfyniadau ar y materion sy'n effeithio arnynt. Rwyf hefyd am weld plant yn cael eu hystyried yn rhan bwysig o'n cymdeithas ac felly byddaf yn parhau i hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl ifanc ble bynnag y bo modd er mwyn gwrthweithio portreadau negyddol yn y wasg ac mewn llefydd eraill.

## **Teuluoedd yn Gyntaf**

Lansiwyd Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Gorffennaf 2010 pan gyhoeddwyd dau gonsortiw (un yn y Gogledd, un yn y De). Mae'n cyd-fynd yn agos â'r gwaith i gefnogi'r Strategaeth Tlodi Plant, yn enwedig yr amcan i leihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau (iechyd, addysg, ac economaidd) ar gyfer plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Trwy'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau

amlasiantaethol newydd o gynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn tloidi, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyrraeth gynnar. Trwy wneud hyn, ein nod yw lleihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth a fydd yn gofyn am ymyriadau mwy costus a dwys yn ddiweddarach.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gydol oes y Cynulliad cyfredol. Rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd â phlant anabl yn aml iawn, ac mae yna ymrwymiad ychwanegol i barhau i roi cymorth i'r teuluoedd hyn.

Dyma fy mlaenoriaethau cyfredol:

1. parhau i wneud Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan ganolog o'r ddau gonsortiw newydd, a cheisio dysgu gwersi wrth weithredu'r rhaglen;
2. sicrhau bod y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn y tri chonsortiw newydd (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011);
3. rhoi canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn haf 2011, mewn da bryd cyn y bydd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chyflwyno'n llawn ledled Cymru o fis Ebrill 2012;
4. cynnwys yr hyn sy'n cael ei ddysgu ar y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf fel rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu newidiadau i'r systemau, a hynny ar draws amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd.

## **Dechrau'n Deg**

Rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sy'n darparu llwybr ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n darparu cyfres "gyffredinol" o hawliau y gall pob plentyn a phob teulu sy'n byw mewn ardal amddifadedd ddynodedig eu cael heb brofi modd neu wynebu synnwyr o warth. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos y gall ymyrraeth ddwys yn y blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau, os yw'r dulliau cyflawni'n taro deuddeg.

Rydym wedi nodi ymrwymiad clir ein bod am weld mwy o blant a theuluoedd yn cael mynediad at y cymorth sydd ar gael trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Byddwn yn:

- Dyblu nifer y plant sy'n cael budd o ymweliadau iechyd gwell, llefydd meithrinfa am ddim a gwell cymorth i deuluoedd trwy ein rhaglen "Dechrau'n Deg";

- Ehangu cyrhaeddiad y rhaglen a dyblu nifer y bobl sy'n cael budd o'r rhaglen Dechrau'n Deg i 36,000 yn nhymor nesaf y Cynulliad nesaf, fel bod bron i chwarter o holl blant Cymru rhwng 0 a 3 oed yn gallu elwa. *(Ar hyn o bryd, mae tua 18,000 o bobl ifanc yn cael budd o'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gost o tua £38 miliwn y flwyddyn).*

Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn ystyried dewisiadau ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau hyn.

## **Gofal Plant**

Mae gofal plant yn hanfodol i helpu rhieni i gydbwyso gwaith a bywyd teuluol ac mae'n elfen allweddol o'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae'r Datganiad Polisi Gofal Plant: Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni yn nodi ein blaenoriaethau sef sicrhau gofal plant o ansawdd uchel, sy'n hygyrch a fforddiadwy.

Plant yw ein prif ddefnyddwyr a buddiolwyr. Ein gweledigaeth yw bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar y gofal plant o ansawdd uchel sydd ei angen am bris maen nhw'n gallu ei fforddio, ond rydym yn cydnabod ein bod yn wynebu cryn her. Mae'r Datganiad Polisi Gofal Plant yn nodi blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant yng Nghymru ac ar gyfer ei huchelgais y tymor hirach o sicrhau gwelliannau parhaus.

## **Chwarae**

Byddwn yn parhau i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae yn ddiogel, a byddwn yn cefnogi camau i sicrhau bod mwy o blant ag anabledau yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae.

Fel Llywodraeth, rydym yn parhau'n llwyr ymrwymedig i hybu chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc. Ein Llywodraeth ni yw'r gyntaf yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar chwarae.

Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), adran 11, Cyfleoedd Chwarae, yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd nhw a sicrhau'r cyfleoedd hynny mewn perthynas â'r asesiad hwnnw cyn belled â'i fod yn ymarferol bosibl.

Nid yw'r ddyletswydd hon wedi cychwyn eto. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr ymateb i argymhelliad 1 Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Ddarparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu, mae llawer o waith paratoi wedi'i wneud o ran y ddyletswydd i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol ac rwy'n gobeithio cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd ar chwarae maes o law.

## **Gweithredu'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (sy'n cynnwys pob un o'r 47 hawl a phrotocolau dewisol) wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y Mesur yn dod i rym mewn dau gam - mae'n berthnasol i bolisi a deddfwriaeth o fis Mai ac i bob swyddogaeth o fis Mai 2014.

Cafodd y mesur ei gymeradwyo'n unfrydol gan bob plaid ac fe gafodd 'Gymeradwyaeth Frenhinol' ar 17 Mawrth, gan ddod i rym ar 17 Mai 2011.

Mae'r gwaith nawr yn canolbwyntio ar weithredu'r mesur ac ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn gweithio ar bob agwedd ar ddarpariaethau'r deddfwriaeth a nodwyd.

Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar weithredu ymrwymadau'r maniffesto, sef:

- Sicrhau bod y 'Mesur Hawliau' yn cael lle priodol ym mholisiau a rhaglenni'r Llywodraeth yn yr holl bolisiau a rhaglenni gydol cyfnod y cynulliad nesaf.
- Arwain y gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad cyfnodol nesaf o sut y mae'r DU yn cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru, sefydliadau plant a'r trydydd sector er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth ehangach a gwerthfawrogiad o lunio polisiau a chyflawni gwasanaethau sy'n seiliedig ar hawliau.

## **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cefais gyfarfod â'r pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddoe, a chael cyfle i amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y blaenoriaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roeddwn o'r farn y byddai'r pwyllgor hwn am gael y darlun cyflawn."

Cyhoeddwyd "*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*" fis Chwefror eleni. Roedd yn amlinellu ein gwerthoedd, ein gweledigaeth a'n prif flaenoriaethau ar gyfer cynorthwyo pobl yng Nghymru. Mewn perthynas â phlant, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn credu mai bod gyda'u teuluoedd sydd orau i blant, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Fy mlaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yw cyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* ac yn ein maniffesto. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflawni hyn ond ein prif ddull ar gyfer cyflawni fydd creu fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn dwyn ymlaen y cynigion ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru ac rwy'n disgwyl y bydd y Ddeddf yn cynnwys mesurau a fydd, er enghraifft, yn:

- Cryfhau trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yng Nghymru, gan gynnwys gwneud hynny trwy adolygu'r gyfraith gyfredol, sefydlu Bwrdd Cenedlaethol newydd a gweithredu canlyniadau adolygiad y byrddau lleol diogelu plant
- Sicrhau bod safonau'n gyson a chael gwell sefydlogrwydd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen gofal gan gynnwys cyflwyno gwasanaeth cenedlaethol i blant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod dewis digonol o leoliadau ar gael a bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â safonau cyffredin a'u bod yn atebol
- Grymuso a chryfhau llais a rheolaeth plant a phobl ifanc
- Hwyluso gwell canlyniadau trwy gryfhau a symleiddio trefniadau asesu a chynllunio gofal, gan roi sylw i weithwyr proffesiynol ac nid prosesau.

Rwy'n bwriadu ymgynghori ar sefydlu un asiantaeth fabwysiadu genedlaethol i Gymru.

Rwyf hefyd yn bwriadu blaenoriaethu gwaith cyflwyno pellach y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyma ein polisi blaenllaw sy'n golygu darparu cymorth integredig i blant a theuluoedd cymhleth trwy wasanaethau amddiffynol, ataliol ac adfer.

Yn 2010, comisiynais adolygiad annibynnol o'r System Cyfiawnder Teuluoedd yng Nghymru a Lloegr ar y cyd â'r Gweinidog Cyfiawnder a'r Adran Addysg. Mae Panel y System Cyfiawnder Teuluoedd yn ystyried y ffyrdd y mae'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd heb eu datganoli yn ymgysylltu â phrosesau'r llysoedd ar gyfer achosion cyfreithiol y cyhoedd a theuluoedd. Rwy'n disgwyl derbyn eu hadroddiad terfynol yn yr hydref a byddaf yn ystyried gweithredu canlyniadau'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yng nghyd-destun anghenion plant a theuluoedd yng Nghymru. Mae ein maniffesto eisoes wedi nodi'n glir, fodd bynnag, y byddwn angen cadw'r egwyddor o gynrychiolaeth ar wahân ar gyfer plant mewn achosion teuluol perthnasol yng Nghymru.

Yn ein maniffesto, fe wnaethom gyfeirio at ddau Fesur. Rwyf wedi cyfeirio at gynnwys posibl y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol uchod, ac rwy'n cynnwys y Mesur Plant isod.



## **Mesur Plant**

Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

Os, wrth roi sylw dyledus i'r dyletswyddau, y gwelwn fod angen newidiadau deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'r Confensiwn yn fwy effeithiol, yna byddai'r Mesur Plant yn ffordd o wneud hynny.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn eiriolwr annibynnol dros hawliau plant ac yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ac eraill yn ôl yr angen ar farn plant a phobl ifanc a'r prif faterion sy'n effeithio arnynt. Wrth ddatblygu'r Mesur Plant, byddwn yn ystyried sut i gryfhau ei annibyniaeth.

**Gwenda Thomas AC**

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**